Ein Stori Lawen

- Mynegwn ein ffydd Gristnogol yn llawen trwy ein haddoliad, ein gwasanaeth a'n cymdeithas mewn awyrgylch sy'n groesawgar, gofalgar a theuluol ei naws.
- Yr ydym yn meithrin ein plant a'n pobl ifanc trwy weithgareddau'r Ysgol Sul a'r gwasanaethau teuluol, a thrwy ein gwasanaethau litwrgaidd, y geiriau a'r gerddoriaeth cawn ein hysbrydoli i addoli a gwasanaethu'r Duw byw.
- Yr ydym yn falch o annog a chefnogi dysgwyr y Gymraeg.
- Mae croeso ac mae lle yn yr eglwys hon i bawb sydd am ystyried neu ailgydio yn eu ffydd neu sy'n chwilio am gartref ysbrydol.

Os am ragor o wybodaeth am Eglwys Dewi Sant:

Ficer/Vicar: Y Parchedig Ganon Dyfrig C. Lloyd Rhif Ffôn: 029 2056 6001
E-bost: dyfriglloyd@hotmail.com
Curad / Curate: Y Parchedig Athro Lloyd Llewellyn-Jones
Y Wardeniaid/Churchwardens:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Delyth Davies – Ffôn: 077 61 118722
E-bost: delyth.d@yahoo.com
Cyfarwyddwr Cerdd:
Ieuan Jones, B. Mus - Ffôn: 074 29 012781
E-bost: ieuanjones@hotmail.co.uk
Trysorydd:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Ysgrifennydd Cymorth Rhodd:
Graham Carson - Ffôn: 07712387203
Ysgrifennydd Cyngor Plwyf:
Marian Fairclough - Ffôn: 07579763030
E-bost: faircloughmarian@gmail.com

Esgobaeth Llandaf + Deoniaeth Caerdydd

EGLWYS DEWI SANT
www.eglwysdewisant.org.uk

CROESO i bawb sydd yn ymweld â'r eglwys heddiw. Cofiwch ymuno â ni am baned a sgwrs yn y neuadd ar ôl y gwasanaeth.

31 Mai 2026
Sul y Drindod

10.30am Y Foreol Weddi a Phregeth
Salm: 93
Darlleniadau: Eseia 6:1-8
Ioan 16:5-15
Darllenwyr: Jayden Mahoney / Karl Davies
Anthem: *Sanctaidd – Franz Shubert (1797 – 1828)*
Emynau: 129 (Nicea); 134 (Capetown); 131 (Sanctus)

6.00pm Y Cymun Bendigaid
Darllenwyr: Delyth Davies / Mair Matthews
Emynau: *Ar daflen*

YN EIN GWEDDÏAU
Cofiwn yn ein gweddïau y cleifion: Dilys Hicks, Eleri Hughes, Gwenda Williams ac am bawb sy'n gofalu amdanynt.

Gweddïwn hefyd dros bawb a fu farw yn nhangnefedd Crist, dros Robert Lewis a thros bawb y cofiwn am eu marwolaeth yr adeg hon o'r flwyddyn. Dyro iddynt, O Arglwydd, orffwys tragwyddol a llewyrched goleuni gwastadol arnynt.

Yn yr Eglwys:

Nos Fawrth 2 Mehefin 2026
6.00pm Ymarfer Côr

Dydd Mercher 3 Mehefin 2026
10.30am Y Cymun Bendigaid

Dydd Sul 7 Mehefin 2025
Trindod I
8.00am Y Cymun Bendigaid
10.30am Y Cymun Bendigaid ar gân ac Ysgol Sul
6.00pm Yr Hwyrol Weddi a Phregeth

YR YSGOL SUL

Ar ôl gwyliau hanner tymor bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn y Sul nesaf, 7 Mehefin, am 10.30am.

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL

Diolch i bawb sydd eisoes wedi cyfrannu tuag at ein casgliad Wythnos Cymorth Cristnogol. Dyma'r Sul olaf y byddwn yn casglu'r amlenni pwrpasol.

COLCH DEWI

Mae'r rhifyn cyfredol o'n cylchgrawn eglwysig, Cloch Dewi, wedi cael ei ddosbarthu. Os nad ydych wedi derbyn eich copi mynnwch air ag un o'r wardeniaid os gwelwch yn dda.

CYNGERDD AWR GINIO

Cynhelir cyngerdd awr ginio o dan nawdd Actifyddion Artistig Caerdydd dydd Mawrth 2 Mehefin am 1.00pm. Bydd y clarinetydd Michael Collins a ffrindiau yn perfformio gweithiau gan Crusell, Beethoven a Mozart. Croeso cynnes i bawb. Tocynnau'n £6.50 wrth y drws.

DATGANIAD ORGAN

Cynhelir datganiad organ o dan nawdd *Cardiff Organ Events* dydd **Gwener 12 Mehefin am 1.15pm**. Y datgeinydd fydd Dr Peter King, organydd emeritws Abaty Caerfaddon. Mae'n dod atom bob blwyddyn, ac mae ei ddewis raglen bob tro yn werth ei chlywed, Croeso i bawb. Mynediad am ddim, ond gwneir casgliad ar y ffordd allan.

CYMDEITHASU

Ar ôl y tywydd cras boeth yr wythnos ddiwethaf, braf oedd mynd i Ynys y Barri nos Iau i fwynhau awel iachusol a bywiocaol y môr. Roedd hi'n noson glir ac roedd modd gweld yn glir ynysoedd Echni a Ronach ynghyd ag arfordir Gwlad yr Haf. Cafwyd cyfle i gwyrdro'n hamddenol ar hyd y traeth a lan i Friar's Point i fwynhau y golygfeydd. Diolch i bawb a ddaeth ar y daith fach hamddenol hon. Roedd y daith ar y trên yr un mor hwylus a phleserus â'r amser a dreuliwyd yn Ynys y Barri.

Y mis nesaf, byddwn yn cynnal barbeciw yr Eglwys yn Hafod Lon, nos Wener 26 Mehefin o 6.30pm ymlaen. Rhagor o fanylion i ddilyn.

GWARCHOD YR EGLWYS

Lynette Allen a Tim Saunders fydd ar ddyletswydd dydd Mercher 3 Mehefin.

GWEDDÏAU'R SUL

- Eglwys Anglicana du Rwanda
- Llys Esgob, y Gwir Barchedig Mary Stallard, y Parchedig Emma Ackland (Caplan)

Darlleniadau a Gwyliau

Dydd Llun 1 Mehefin:

Seffaneia 3:13-18; Salm113; Luc 1:39-56

Gweddïwn: Esgobaeth Aba – Eglwys Anglicanaidd Nigeria

Archddiaconiaeth Llandaf, yr Hybarch Mark Preece, Archddiacon dros dro.

Dydd Mawrth 2 Mehefin: Blandina a'i Chymdeithion

II Pedr 3:11-18; Salm 90:1=6; Marc 12:13 -17

Gweddïwn dros: Esgobaeth Aba Ngwa, Eglwys Nigeria

Ardal Gweinidogaeth y Rhath a Cathays, y Parchedig Ganon Stewart Lisk, arweinydd

Dydd Mercher 3 Mehefin: James Hannington, Merthyron Wganda a Janani Luwum

II Timotheus 1:1-12; Salm 123; Marc 12:18-27

Gweddïwn dros: Esgobaeth Abakaliki – Eglwys Nigeria

Ardal Gweinidogaeth De Caerdydd, y Parchedig Dean Atkins, arweinydd

Dydd Iau 4 Mehefin: Dydd Diolchgarwch am y Cymun Bendigaid (Corpus Christi)

Genesis 14:18-20; Salm 116:12-19; Ioan 6:47-58

Gweddïwn dros: Esgobaeth Aberdeen ac Orkney, Eglwys Esgobol yr Alban

Ardal Gweinidogaeth Gorllewin Caerdydd, y Parchedig Ganon Andrew Sully, arweinydd

Dydd Gwener 5 Mehefin: Boniffas

II Timoetheus 3:10-17; Salm 119:161-168; Marc 12:35-37

Gweddïwn dros: Esgobaeth Abuja – Talaith Eglwys De Swdan

Ardal Gweinidogaeth Gogledd Caerdydd, y Parchedig Ganon Elaine Jenkyns

Dydd Sadwrn 6 Mehefin: Asaff

II Timotheus 4:1-8; Salm 71:8-17; Marc 12:38-44

Gweddïwn dros: Esgobaeth Yangon – Eglwys Talaith Myanmar

Ardal Gweinidogaeth Taf Wenallt, y Parchedig Theresa Parker, arweinydd